



Creu Proffil Plentyn

Mae pawb yn wahanol ac mae ganddynt wahanol gryfderau ac anawsterau - mae ganddyn nhw ddiddordebau gwahanol ac maen nhw'n mwynhau gwahanol weithgareddau. Mae ganddyn nhw hefyd strategaethau cymorth gwahanol - rhywbeth y mae un person yn ei chael hi'n bosib bod tawelu yn peri gofid i un arall. Felly mae'n bwysig creu proffil sy'n benodol i'r person hwnnw.

Gall defnyddio proffil helpu i osgoi anawsterau, atal camsyniadau a sicrhau bod cysondeb o ran gofal eich plentyn. Gallwch greu proffil plentyn am ddim yn:

www.NiwrowahaniaethCymru.org/cy/rhieni-a-gofalwyr/gwybodaeth-ar-gyfer-plentyn-awtistig/proffil-personol-plentyn/

Gellir wedyn rhannu'r proffil gydag unrhyw un sy'n cefnogi eich plentyn, o staff meddygol i hyfforddwyr nofio, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r ffordd orau o ryngweithio gyda nhw a'u cefnogi.

Dylai proffil plentyn gynnwys:

- Enw eich plentyn
- Manylion cyswllt mewn argyfwng
- Manylion anawsterau penodol eich plentyn, a sut i'w cefnogi (fel 'Rwy'n cael anhawster yn deall iaith gymhleth, defnyddiwch ymadroddion syml')
- Manylion y gweithgareddau y mae eich plentyn yn eu mwynhau
- Manylion y pethau sy'n peri gofid i'ch plentyn
- Manylion y ffyrdd o dawelu eich plentyn os yw'n ofidus

Os bydd plentyn yn cario'r proffil gyda nhw, neu'n ei rannu mewn sawl sefyllfa, rydym yn eich annog i ystyried a yw'n ddiogel cynnwys llun o'ch plentyn neu beidio, am y gallai fod yn beryglus os yw'r proffil yn mynd ar goll.

Mae templed o broffil oedolyn, a all fod yn fwy addas ar gyfer y glasged hŷn, hefyd ar gael yn

www.NiwrowahaniaethCymru.org/cy/rwyn-awtistig/adnoddau-i-chi/proffil-personol-oedolion/